Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ASESIAD EFFAITH

# Camau 1, 2 a 3 y Gronfa Cadernid Economaidd: asesiad effaith integredig

Asesiad o sut mae'r gronfa COVID-19 benodol yn cael ei defnyddio i helpu busnesau ledled Cymru.

Cyhoeddwyd gyntaf: 15 Hydref 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 2 Medi 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/camau-1-2-3-y-gronfa-cadernid-economaidd-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried, a pham?

Casgliad

# Pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried, a pham?

## Sut rydych wedi / sut y byddwch yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth gymryd y camau arfaethedig, drwy gydol y cylch polisi a chyflawni?

Mae'r Gronfa Cadernid Economaidd (ERF) yn cynnig cymorth i fusnesau, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, ac mae'n cynnwys y camau a ganlyn:

| Cyllid* | Dyddiad | Swm |
|---|---|---|
| Cam 1 y Gronfa Cadernid Economaidd | Ebrill 2020 | £400,000,000 |
| Cynllun Benthyciadau i Fusnesau yng Nghymru yn sgil Covid-19 − Banc Datblygu Cymru (yn darparu benthyciadau rhwng £5,000 a £250,000) | Ebrill 2020 | £100,000,000 |
| Cam 2 y Gronfa Cadernid Economaidd | Mehefin 2020 | £300,000,000 |
| Cam 3 y Gronfa Cadernid Economaidd | Hydref | £100,000,000 |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/camau-1-2-3-y-gronfa-cadernid-economaidd-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| | | |
|---|---|---|
| | 2020 | |
| Cam 3 y Gronfa Cadernid Economaidd − <br><br>Ardrethi Annomestig – y Cyfyngiadau Symud | Hydref 2020 | £199,500,000 |
| Ardrethi Annomestig − Y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau | Rhagfyr 2020 | £160,000,000 |
| Y Gronfa Cadernid Economaidd – y Gronfa ar gyfer Sectorau Penodol (Lletygarwch, twristiaeth, hamdden a chwmnïau cyflenwi) | Ionawr 2021 | £180,000,000 |
| Y Gronfa Cadernid Economaidd – Cam 2 y Gronfa ar gyfer Sectorau Penodol | Mawrth 2021 | £30,000,000 |
| Cymorth gydag Ardrethi Annomestig ar gyfer y sectorau lletygarwch, twristiaeth, hamdden a manwerthu nad yw'n hanfodol | Mawrth 2021 | £150,000,000 |
| | Cyfanswm | £1,619,500,000 |

*Nid yw'n cynnwys rhyddhad Ardrethi Busnes yn 2020/21 a chronfeydd pwrpasol llai

Mae cronfa Banc Datblygu Cymru yn cefnogi busnesau sydd wedi bod yn masnachu ers dros ddwy flynedd. Nid oes unrhyw ffioedd trefnu/monitro, mae'r llog yn sefydlog ar 2%, ac mae gwyliau ad-dalu llog/cyfalaf am y flwyddyn gyntaf.

Mae grantiau'r Gronfa Cadernid Economaidd yn rhoi cymorth i fusnesau/elusennau fynd i'r afael ag effeithiau Covid-19 ac mae'n ceisio lliniaru'r pwysau ar lif arian pan nad oes cymorth arall ar gael i helpu gyda hynny. Mae'r manylion am bwy sy'n gymwys ar gyfer cam 1 i'w gweld yma: **Y Gronfa Cadernid Economaidd - y cyfnod ymgeisio yn dechrau**. Mae'r meini prawf yr un fath ar gyfer cam 2 ond mae'r micro gynllun yn golygu bod cwmnïau cyfyngedig nad

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/camau-1-2-3-y-gronfa-cadernid-economaidd-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ydynt wedi cofrestru at ddibenion TAW yn cael gwneud cais. Mae Cam 3,  'y Gronfa i Fusnesau yn sgil y Cyfyngiadau Symud', yn rhoi cymorth ariannol i fusnesau sy'n wynebu heriau gweithredol ac ariannol oherwydd y cyfyngiadau symud cenedlaethol yng Nghymru. Mae’r manylion a gwybodaeth am bwy sy’n gymwys i wneud cais i’w gweld yma: **Cartref COVID-19: Cymorth i Fusnes**.

Gweinyddir yr elfen Ardrethi Annomestig (NDR) gan yr awdurdodau lleol ac mae'n rhoi cymorth i fusnesau cymwys gyda’u hardrethi busnes. Mae grant yn ôl disgresiwn ar gael hefyd ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd mis Mawrth 2021 drwy gyflwyno ceisiadau i’r awdurdodau lleol. Mae'r pecyn cymorth wedi'i dargedu at y sectorau y mae'r cyfyngiadau symud yn effeithio’n fwyaf difrifol arnynt.

Gall busnesau sydd wedi'u cofrestru at ddibenion ardrethi annomestig gael taliadau rhwng £3,000 a £5,000 ac mae busnesau nad ydynt wedi'u cofrestru at ddibenion ardrethi annomestig ac sydd â throsiant blynyddol o lai na £50,000 yn gymwys i wneud cais am grantiau o hyd at £2,000. Mae rhagor o fanylion am y gronfa ar gael yma: **Cartref COVID-19: Cymorth i Fusnes**.

## Y tymor hir

Mae’r dystiolaeth yn awgrymu y bydd Covid-19 yn cael cryn effaith ar yr economi. Er mai mesur tymor byr yw’r Gronfa Cadernid Economaidd a gafodd ei datblygu’n gyflym er mwyn cadw busnesau i fynd a diogelu swyddi, mae iddi effeithiau cadarnhaol o ran goroesiad busnesau yn y tymor hwy, ac mae’n diogelu'r anghenion economaidd yn y tymor hwy. Mae Cam 3 yn rhoi cymorth i fusnesau gyda’u llif arian i'w helpu i oroesi canlyniadau economaidd y cyfyngiadau symud cenedlaethol sydd ar waith, ac mae'r elfen ardrethi annomestig yn rhoi cymorth gydag ardrethi busnes.

Mae’n Contract Economaidd yn helpu i newid ymddygiad busnesau fel y bo arferion busnes ac arferion cyflogaeth cyfrifol yn dod yn norm yng Nghymru. Mae’n golygu ei bod yn ofynnol i fusnesau sy’n gofyn am fuddsoddiad ddangos eu bod yn bodloni’r gofynion hyn:

- Potensial i dyfu.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/camau-1-2-3-y-gronfa-cadernid-economaidd-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Gwaith Teg.
- Hybu iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, sgiliau, a dysgu yn y gweithle.
- Cynnydd o ran lleihau ôl troed carbon.

Bydd hyn yn arwain at effeithiau cadarnhaol dros y tymor hirach. Rydym yn parhau i fonitro amodau economaidd Cymru, a gall y gwaith hwnnw helpu i lywio polisïau at y dyfodol.

## Atal

Mae llawer iawn o bobl yng Nghymru yn cael eu cyflogi mewn sectorau y mae Llywodraeth y DU wedi pennu eu bod mewn perygl  o ddioddef ‘effaith niweidiol sylweddol ar unwaith’. Er nad oes modd atal effaith lawn Covid-19, mae’r Gronfa Cadernid Economaidd yn helpu i gadw busnesau i fynd ac i ddiogelu swyddi, sy’n arwain at lai o effeithiau negyddol nag y byddid wedi’u gweld fel arall.

Mae Datblygu Economaidd yn fater sydd wedi’i ddatganoli i Gymru. Rhan o’r rôl honno yw helpu i greu amgylchedd sefydlog a ffafriol ar gyfer busnesau a mynd i’r afael â methiannau yn y farchnad. Mae’r Gronfa Cadernid Economaidd yn cyfrannu at yr amcanion hyn. Gellir defnyddio gwybodaeth a gesglir drwy fonitro tra bo’r Gronfa Cadernid Economaidd yn cael ei rhoi ar waith a phan ddaw i ben hefyd, er mwyn llywio polisïau at y dyfodol.

## Integreiddio

Cafodd y Gronfa Cadernid Economaidd ei datblygu i gyd-fynd â’r cyd-destun polisi ehangach, gan gynnwys y fframwaith polisi a amlinellir yn y **Cynllun Gweithredu ar yr Economi** sydd gan Lywodraeth Cymru. Rhoddir ystyriaeth briodol i’r angen i ddefnyddio buddsoddiad cyhoeddus sydd â phwrpas cymdeithasol fel y nodir yn y Contract Economaidd.

Mae'r Gronfa Cadernid Economaidd yn bodoli ochr yn ochr ag ymyriadau eraill ac mae’n mynd i’r afael â’r bylchau yn y cymorth sydd ar gael.  Mae’n cyd-fynd ag **amcanion llesiant** Cymru gydnerth a Chymru lewyrchus.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/camau-1-2-3-y-gronfa-cadernid-economaidd-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cydweithio

Mae Gweinidog yr Economi yn cyfarfod yn rheolaidd â rhanddeiliaid i rannu/ dderbyn gwybodaeth. Mae hynny'n ein helpu i lunio'n hymateb economaidd ac mae'n cyfrannu at gyfeiriad polisi. Mae'r rhanddeiliaid yn cynnwys:

- Undebau Llafur
- Bwrdd Cynghori'r Gweinidog
- Awdurdodau Lleol
- Sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau a chyrff masnach
- Cyngor Datblygu'r Economi

Yn ystod y pandemig, trefnodd Gweinidog yr Economi y cyfarfodydd isod:

- Trafodaethau bord gron gyda banciau
- Cydffederasiwn Diwydiant Prydain
- Cyfarfod Partneriaeth y Trydydd Sector
- TUC
- Cynrychiolwyr Busnes
- Ymgysylltu â Chymdeithas Yswirwyr Prydain/cwmnïau yswiriant mawr

Roedd cymhlethdod a chyflymder y gwaith yn ystod cyfnod cynnar Covid-19 yn golygu ei bod yn anodd iawn ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid ynglŷn â'r Gronfa Cadernid Economaidd. Ymdrechwyd i'r eithaf i ystyried ac ymateb i faterion wrth iddynt ddod i'r amlwg. Parhaodd ein Prif Swyddogion Rhanbarthol a thimau'r sectorau, gan gynnwys y sectorau Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, i gysylltu a thrafod gyda rhanddeiliaid cyn y camau gwahanol. Newidiwyd y meini prawf ar gyfer micro gynlluniau mewn ymateb i adborth a ddaeth i law.

Mae'r Gronfa Cadernid Economaidd yn llenwi bylchau mewn cefnogaeth ac fe'i datblygwyd i gynorthwyo cymaint o fusnes â phosibl o fewn y cylch gwaith.

Mae'r Gronfa Cadernid Economaidd yn llenwi bylchau yn y cymorth sydd ar gael a chafodd ei datblygu i helpu cynifer o fusnesau â phosibl o fewn ei chylch gwaith.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/camau-1-2-3-y-gronfa-cadernid-economaidd-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae'n rheolwyr cysylltiadau rhanbarthol wedi cysylltu a thrafod â busnesau drwy gydol y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Gronfa Cadernid Economaidd. Mae'n Prif Swyddogion Rhanbarthol wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid rhanbarthol – elfen hollbwysig wrth estyn allan (yn enwedig i leoliadau anodd eu cyrraedd). Bydd gwybodaeth a gesglir wrth fonitro yn helpu i asesu'r effeithiau a gaiff y cymorth a roddir o dan y Gronfa Cadernid Economaidd. Bydd arolwg (i'w gwblhau erbyn haf 21) yn rhan o'r gwaith ymchwil a wneir gan Adran yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, a bydd arolygon o'r fath yn cael eu cynnal eto yn ystod camau perthnasol y Gronfa Cadernid Economaidd. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i lywio polisïau at y dyfodol. Bydd systemau monitro Banc Datblygu Cymru a Llywodraeth Cymru yn cynnal arolygon ymhlith y rheini a fydd yn cael cymorth, a bydd y systemau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) a'r ymchwil yn darparu data a fydd yn caniatáu inni weld demograffeg y rheini sy'n gofyn am gymorth ac yn ein galluogi i fonitro llwyddiant y cynllun.

## Cynnwys eraill

Drwy gasglu gwybodaeth amser real oddi wrth fusnesau/randdeiliaid, gwnaethom gasglu tystiolaeth er mwyn canfod bylchau a mireinio camau gwahanol y Gronfa Cadernid Economaidd o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud. Rydym yn parhau i gysylltu a thrafod â rhanddeiliaid wrth inni weithredu'r Gronfa Cadernid Economaidd a bydd hynny'n llywio polisïau at y dyfodol.

Yn ogystal â'r pum ffordd o weithio uchod, ystyriwch y meysydd a ganlyn:

## Effaith

Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru, **Covid-19 a chyflogaeth: dadansoddiad o nodweddion gwarchodedig**, yn nodi bod oddeutu 230,000 o bobl yn cael eu cyflogi yn 2019 mewn diwydiannau yng Nghymru a gafodd eu cau ar ddechrau'r pandemig. Roedd hynny'n rhyw 16% o gyfanswm y gweithlu. Mae menywod, pobl ifanc a gweithwyr o gefndir BAME (Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig) yn fwy tebygol o gael eu cyflogi yn y diwydiannau hynny. Gwnaethom ysgrifennu at gysylltiadau sydd gennym ym maes Cydraddoldeb, Amrywiaeth ac Ymgysylltu ar 22 Medi 2020 er mwyn casglu adborth a nodi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/camau-1-2-3-y-gronfa-cadernid-economaidd-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

unrhyw effeithiau cadarnhaol/negyddol a gafodd camau 1 a 2 o’r Gronfa Cadernid Economaidd. Gall yr adborth hwnnw lywio polisïau at y dyfodol. Daeth ymateb i law oddi wrth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a ddywedodd wrthym fod y dystiolaeth yn dangos bod

Covid-19 yn cael effaith anghymesur ar rai pobl. Yng nghyd-destun y Gronfa Cadernid Economaidd, maent yn tynnu sylw'n benodol at yr effaith anghyfartal ar leiafrifoedd ethnig, pobl anabl, pobl ifanc, menywod a phobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Diwygiwyd y Gronfa er mwyn ceisio lliniaru'r effeithiau hynny a chymerwyd camau ychwanegol i fynd i'r afael â nhw, drwy gynlluniau sy’n cynnwys y Gronfa Ddewisol, cyllideb ychwanegol i'r Gronfa Cymorth Dewisol a chynlluniau pwrpasol fel cronfeydd Dechrau Busnes a chronfeydd ar gyfer Gweithwyr Llawrydd.

Mae’r sectorau a gafodd eu cau wedi gweld gostyngiad difrifol yn y galw, a disgwylir effaith sylweddol ar sectorau eraill.  Bydd natur eang effeithiau’r gostyngiad yn y galw yn ymdreiddio i b ob sector, a hynny ar raddfa fawr. Bydd effeithiau eraill yn dod i’r amlwg yn y gadwyn gyflenwi, drwy weithluoedd llai a phroblemau gyda llif arian. Bydd profiad pob busnes yn ystod yr argyfwng hwn yn wahanol, gan gynnwys y rheini a fydd yn:

- Gorfod rhoi’r gorau i fasnachu
- Rhoi’r gorau i weithredu dros y tymor canolig
- Gallu addasu i weithio o bell
- Parhau i fasnachu oherwydd bod eu busnes yn hanfodol er mwyn i’r genedl fedru gweithredu
- Gorfod parhau â’u gweithrediadau drwy gyfnod y cyfyngiadau symud er bod eu gwerthiant wedi diflannu.

Mae’r Gronfa Cadernid Economaidd yn rhoi cymorth hollbwysig i fusnesau i’w helpu i ddal ati ac i ddiogelu swyddi.

## Costau ac arbedion

Mae’r cyllid a ddarparwyd yn gyfanswm o £1,619.5 miliwn. Os bydd rhagor o adnoddau ar gael, gallai'r ffigur hwnnw gynyddu, er enghraifft, mae swm o £200

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/camau-1-2-3-y-gronfa-cadernid-economaidd-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

miliwn wedi'i nodi yng nghyllideb 2021-22 ar gyfer cyllid yn y dyfodol a bydd rhagor o gynigion yn dilyn yn ôl yr angen.

### Mecanwaith

Mae gan Fanc Datblygu Cymru brosesau ar waith er mwyn i fusnesau fedru cyflwyno ceisiadau ac mae ganddo systemau i fonitro llwyddiant. Mae'r elfen grant yn cael ei darparu drwy Busnes Cymru ac mae ganddo brosesau ar waith i ymdrin ag ymholiadau, asesu ceisiadau a chyhoeddi cynigion. Bydd systemau Llywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio i gofnodi gwybodaeth ac i ddarparu gwybodaeth fonitro er mwyn asesu effeithiolrwydd y Gronfa Cadernid Economaidd. Bydd modd defnyddio'r wybodaeth honno i lywio bolisïau at y dyfodol.

# Casgliad

## Sut yr aed ati i gynnwys y bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wrth i'r cynnig hwnnw gael ei ddatblygu?

Oherwydd bod angen gweithredu'n ddiymdroi i sicrhau bod cymorth ar gael mewn ymateb pandemig, nid oedd modd trafod y Gronfa Cadernid Economaidd gyda rhanddeiliaid cyn datblygu/lansio'r cynllun. Fodd bynnag, cafodd ystod eang o randdeiliaid eu briffio ar 9 Ebrill. Gwnaethom ysgrifennu at gysylltiadau sydd gennym ym maes Cydraddoldeb, Amrywiaeth ac Ymgysylltu ar 22 Medi 2020 er mwyn casglu adborth a nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol a negyddol a gafodd camau 1 a 2 ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Gallwn ddefnyddio'r wybodaeth honno i lywio polisïau at y dyfodol. Daeth ymateb i law oddi wrth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a ddywedodd wrthym fod y dystiolaeth yn dangos bod Covid-19 a'r ymatebion iddo yn cael effaith anghymesur ar rai pobl. Yng nghyd-destun y Gronfa Cadernid Economaidd, maent yn tynnu sylw'n benodol at yr effaith anghyfartal ar leiafrifoedd ethnig, pobl anabl, pobl ifanc, menywod a phobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Byddwn hefyd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/camau-1-2-3-y-gronfa-cadernid-economaidd-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

yn cynnwys ac yn ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid er mwyn llunio strategaeth effeithiol i ailadeiladu economi Cymru. Byddwn yn ceisio barn am y strategaeth ac unrhyw effeithiau posibl y gallai eu cael ar y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig ac ar siaradwyr Cymraeg.

## Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, yn rhai cadarnhaol a negyddol?

Mae'r Gronfa Cadernid Economaidd yn cynnig manteision cadarnhaol yn bennaf i'r rhan fwyaf o bobl â nodweddion gwarchodedig sy'n cael eu cyflogi yn y sectorau yr effeithir arnynt. Fodd bynnag, mae rhai agweddau wedi golygu nad yw rhai grwpiau wedi gweld cymaint o fudd:

- Rhywedd − Mae rhai sectorau, fel darparwyr gwasanaethau gwallt a harddwch, yn annhebygol o gyrraedd y trothwy i gofrestru at ddibenion TAW ac, yn nodweddiadol, mae mwy o fenywod yn cael eu cyflogi yn y sectorau hynny. Yn dilyn adborth a gafwyd am Gam 1, cafodd y gofyniad hwnnw ei ddileu ar gyfer microfusnesau yn y camau dilynol.
- Hil – dim ond ffurflenni cais Cymraeg neu Saesneg sydd ar gael. Gallai fod yn anodd i bobl nad ydynt yn medru'r Gymraeg/Saesneg lenwi'r ffurflen gais. Ystyrir nad oes llawer o fusnesau'n perthyn i'r categori hwn a bod yr effeithiau'n fach iawn. Byddai Busnes Cymru yn ceisio dod o hyd i ateb pe na bai rhywun yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- Oedran – Mae'r broses ymgeisio ar gyfer y Gronfa Cadernid Economaidd yn broses ar-lein. Mae'n bosibl nad oes offer TG ar gael i rai pobl (e.e. pobl hŷn) fedru cyflwyno'r cais. Barnwyd mai ychydig iawn o fusnesau a fyddai yn y sefyllfa honno, felly, ni chafodd ffactorau lliniaru eu rhoi ar waith.
- Crefydd - Mewn crefyddau Abrahamaidd, yn draddodiadol, mae rheolau sy'n ymwneud ag 'usuriaeth' – rhoi benthyg arian am log. Gallai hynny felly atal rhai dilynwyr Iddewiaeth, Islam a Christnogaeth rhag cymryd benthyciadau, ond byddent yn gallu gwneud cais am elfen grant y cynllun.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/camau-1-2-3-y-gronfa-cadernid-economaidd-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a’r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau neu’n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae’r Gronfa Cadernid Economaidd yn cefnogi **Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol** ac mae’n cyd-fynd ag amcanion Llesiant Cymru Gydnerth a Chymru Lewyrchus.

## Pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i hyrwyddo bioamrywiaeth, hawliau plant, cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg neu unrhyw un arall o’r meysydd sy’n cael sylw yn eich asesiadau effaith?

O dan y Contract Economaidd, mae’n ofynnol i fusnesau sy’n gwneud cais am fuddsoddiad ddangos eu bod, man lleiaf, yn bodloni’r gofynion sylfaenol hyn: Potensial i dyfu, Gwaith Teg, Hybu iechyd, a Chynnydd o ran lleihau ôl troed carbon. Bydd hynny’n helpu i newid ymddygiad dros amser er mwyn i arferion busnes ac arferion cyflogaeth cyfrifol ddod yn norm yng Nghymru.

Nid ystyrir y bydd y Gronfa Cadernid Economaidd yn cael unrhyw effeithiau uniongyrchol ar hawliau plant, ond bydd yn diogelu swyddi gan olygu bod rhieni/gofalwyr yn parhau mewn gwaith.

Bydd y Gronfa Cadernid Economaidd yn cael ei gweinyddu drwy Busnes Cymru, sy’n darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog. Mae ganddo 12 Swyddog Cymraeg i Fusnesau sy’n gallu cynnig cymorth rhad ac am ddim i helpu busnesau i ddefnyddio rhagor o Gymraeg ac sy’n darparu gwasanaeth pwrpasol sy’n cynnig cyngor a dulliau ymarferol, yn ogystal â helpu busnesau i ddod o hyd i ragor o gefnogaeth berthnasol.

## Pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i gryfhau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/camau-1-2-3-y-gronfa-cadernid-economaidd-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## ei chyfraniad at nod penodol neu i gyfrannu at nodau ychwanegol?

Mae'r Gronfa Cadernid Economaidd yn cyfrannu'n uniongyrchol at Nodau Llesiant Cymru Lewyrchus a Chymru Gydnerth. Mae hefyd yn cyfrannu'n anuniongyrchol, drwy'r Contract Economaidd, at Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang a Chymru sy'n Fwy Cyfartal. Cafodd y Gronfa Cadernid Economaidd ei datblygu er mwyn sicrhau bod cynifer o fusnesau â phosibl yn gallu cael gafael ar gymorth (gan gynnwys sefydliadau diwylliannol a sefydliadau ym maes y celfyddydau). Mae'r Gronfa yn cael effaith hefyd o ran Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu.

Mae'r Gronfa Cadernid Economaidd yn darparu cymorth dros dro yn ystod y pandemig. Mae'r camau pellach yn rhoi cymorth ariannol i fusnesau sy'n wynebu heriau gweithredol ac ariannol oherwydd y cyfyngiadau symud cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r gronfa'n rhoi cymorth i fusnesau gyda'u llif arian i'w helpu i oroesi canlyniadau economaidd y cyfyngiadau.

Mae'r gronfa ardrethi annomestig yn darparu pecyn cymorth sy'n gysylltiedig â'r system Ardrethi Annomestig, ac mae'n cael ei chyflwyno drwy'r awdurdodau lleol.

## Pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i osgoi, i leihau neu i liniaru effaith negyddol?

Ystyrir bod y Gronfa Cadernid Economaidd yn cael effeithiau cadarnhaol yn bennaf ar fusnesau, ar berchnogion ac ar weithwyr yn y sectorau hynny y mae Covid-19 yn effeithio arnynt fwyaf. Mae yna rai agweddau ar y gronfa sy'n golygu bod llai o fudd i rai grwpiau ond ystyrir mai bach iawn yw'r rheini ac ni chymerwyd unrhyw gamau yn eu sgil.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/camau-1-2-3-y-gronfa-cadernid-economaidd-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Os na fydd camau'n cael eu cymryd i osgoi, i liniaru neu i wneud iawn am effaith negyddol, eglurwch pam

Nid oedd modd osgoi'r angen i wneud ceisiadau ar-lein pan oedd y wlad dan gyfyngiadau symud llawn. Hyd yn oed wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio, roedd y rhan fwyaf o swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn dal ar gau ac roedd cyfyngiad o 20% ar gapasiti yn yr adeiladau a oedd yn agored. Barnwyd mai nifer bach o bobl fyddai ddim yn gallu gwneud cais ar-lein ac, o'r herwydd, ni chafodd mesurau lliniaru eu rhoi ar waith. Cyflwynwyd mesurau lliniaru mewn perthynas â'r gofyniad i fusnesau fod wedi'u cofrestru at ddibenion TAW drwy ddileu'r gofyniad hwnnw ar gyfer camau pellach y gronfa.

## Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo gael ei ddatblygu, ac ar ôl iddo ddod i ben?

Mae gan Fanc Datblygu Cymru a Busnes Cymru ill dau systemau i gofnodi ac i fonitro gwybodaeth am berfformiad. Bydd hynny'n hollbwysig wrth benderfynu a yw'r Gronfa Cadernid Economaidd yn cael ei darparu'n effeithiol ai peidio. Bydd y data'n allweddol ar gyfer monitro a gwerthuso. Mae data wedi dylanwadu ar benderfyniadau rheoli wrth benderfynu sut y dylid dyrannu adnoddau yn y dyfodol, a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal i fonitro faint sy'n manteisio ar y gronfa ac i fonitro gallu gweinyddol. Mae'r wybodaeth am berfformiad yn helpu i lywio'r adolygiadau hynny.

Mae'r dangosyddion perfformiad allweddol yn cynnwys: Nifer y Swyddi a Ddiogelwyd, Nifer y Swyddi a Ddiogelwyd am 12 mis, Nifer y Busnesau a Gynorthwywyd, a Nifer y Busnesau a Oroesodd ar ôl 12 mis. Gallai meini prawf monitro eraill mwy hirdymor gynnwys: Nifer y Busnesau yng Nghymru, cynnyrch domestig gros a statws credyd busnesau. Hefyd, mae Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru yn datblygu dangosfwrdd er mwyn monitro effaith ymyriadau economaidd.

Gofynnir am ddewis iaith yr ymgeisydd yn ail rownd y ceisiadau i'r Gronfa Cadernid Economaidd. Byddwn yn cynnal dadansoddiadau daearyddol ar lefel

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/camau-1-2-3-y-gronfa-cadernid-economaidd-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

awdurdod lleol. Bydd ein gwerthusiad yn edrych ar effaith y Gronfa Cadernid Economaidd a byddwn yn dadansoddi data i weld faint o fusnesau a gefnogwyd, ym mha sectorau, daearyddiaeth, nifer y swyddi a gadwyd. Gallwn ddarparu dadansoddiad o berchnogion busnesau yn ôl grwpiau demograffig, pan fo'r data hynny gennym. Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio arolwg cymunedol ynghylch effaith y cyfyngiadau Covid-19 ar wirfoddoli drwy gyfrwng y Gymraeg ac ar ddefnydd o'r Gymraeg. Daeth yr arolwg hwnnw i ben ar 2 Hydref 2020.

Mae'r elfen ardrethi annomestig yn rhoi cymorth i fusnesau i'w helpu gyda'u trethi busnes.  Mae'r manylion i'w gweld yma: **Cartref COVID-19: Cymorth i Fusnes**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/camau-1-2-3-y-gronfa-cadernid-economaidd-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Camau 1, 2 a 3 y Gronfa Cadernid Economaidd: asesiad effaith integredig** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/camau-1-2-3-y-gronfa-cadernid-economaidd-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/camau-1-2-3-y-gronfa-cadernid-economaidd-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.